

Wylfa Newydd

**Adroddiad ar yr Effaith Leol**

Pennod 15: Cymuned

**Rhagfyr 2018**

Cyf PINS: EN010007

**Tudalen wedi'i gadael yn wag yn fwriadol**

## 1.0 Cymuned

### 1.1 Cyd-destun

- 1.1.1 Mae adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd yn cynrychioli cyfle unigryw i wella cynaliadwyedd cymunedau'r Ynys. Bydd creu cyfleoedd cyflogaeth newydd a mewnlifiad o adeiladwyr a gweithwyr gweithredol yn cynhyrchu mwy o alw am gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol pwysig megis iechyd ac addysg. Yn bwysig, gall y buddsoddiad mewn seilwaith a gynhyrchir gan Prosiect Wylfa Newydd gyfrannu at wella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau'r gymuned, gan gynhyrchu budd etifeddiaeth parhaus i gymunedau'r Ynys.
- 1.1.2 Fodd bynnag, mae nodweddion poblogaeth a chymunedau'r Ynys yn cyflwyno nifer o heriau o ran cyflenwi gwasanaethau a seilwaith. Er enghraifft, mae poblogaeth trigolion yr Ynys, a oedd yn 69,750 yng Nghyfrifiad 2011, yn wledig yn bennaf sy'n gallu gwneud darparu gwasanaethau'n anodd. Mae amcanestyniadau seiliedig ar dueddiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos y bydd poblogaeth yr Ynys yn cynyddu i 69,984 erbyn 2026 ond y gallai leihau i 69,231 erbyn 2033. Yn y cyfamser, mae'r boblogaeth yn heneiddio; mae disgwyl i nifer y bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn gynyddu'n sylweddol o 16,963 yn 2014 i 20,087 yn 2026 ac yna i 21,779 yn 2033. Mae hyn yn gynyddu oddeutu 28% rhwng 2014 a 2033. Amcanir y bydd nifer y bobl dros 65 oed fel canran o gyfanswm poblogaeth yr Ynys yn cynyddu o tua 24% yn 2014 i 31% yn 2033. Mae hyn yn achosi goblygiadau pwysig i gyflenwi gwasanaethau a'r galw am ddarpariaethau. Mae'n bwysig hefyd cydnabod y gallai Prosiect Wylfa Newydd newid tueddiadau ac amcanestyniadau demograffig, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu pan fydd mewnlifiad o weithwyr.
- 1.1.3 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) o'r farn ei bod yn hanfodol bod Prosiect Wylfa Newydd yn cael ei integreiddio â chyfleuster cymuned a chyflenwi seilwaith i **ddarparu budd etifeddiaeth parhaus i gymunedau'r Ynys** fel yr amlinellir ym Mholisi PS9 y Cydgyllun Datblygu Lleol: Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig. Mae NPS EN-1 (ym mhara. 5.12.3) yn nodi y dylai asesiadau o effeithiau economaidd-gymdeithasol ystyried, ymysg pethau eraill, darparu gwasanaethau a gwelliannau lleol ychwanegol i seilwaith lleol a sut y gallai mewnlifiad o weithwyr effeithio ar ddynameg poblogaeth leol a'r galw am wasanaethau a chyfleusterau. Yn y cyfamser, mae paragraff 5.12.8 yn nodi y dylai'r awdurdod archwilio ystyried unrhyw ddarpariaethau cadarnhaol perthnasol y mae'r datblygwr wedi'u gwneud neu y mae'n cynnig **eu gwneud i liniaru effeithiau sylweddol ac unrhyw fuddion etifeddiaeth a allai ddigwydd.**
- 1.1.4 Bydd y bennod hon yn edrych ar yr effeithiau a fydd yn effeithio ar gymunedau CSYM o ran darpariaeth hamdden a chydlyniant cymunedol. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau hamdden yn ogystal â chydlyniant cymunedol. Cynhelir asesiadau o'r effaith ar ofal iechyd, yr effeithiau ar y gwasanaeth ambiwlans, troseddu ac anhrefn, tân ac achub ac ati yn ôl y 'goleuadau glas'

a bydd CSYM yn gadael i'r gwasanaethau cyhoeddus arbenigol hyn wneud sylwadau am y rhain.

## **1.2 Cyfleusterau a Gwasanaethau Hamdden**

- 1.2.1 Mae CSYM yn berchen ar bedair Canolfan Hamdden a weithredir ganddynt ar yr Ynys sy'n cynnwys David Hughes (Porthaethwy), Plas Arthur (Llangefni), Caergybi ac Amlwch.
- 1.2.2 Hefyd, mae darpariaeth Hamdden a reolir yn breifat yn bodoli ar yr Ynys gan gynnwys Canolfan Biwmares a gynhelir gan Fenter Gymdeithasol ddielw, a Chanolfan Ffitrwydd a Chodi Pwysau Caergybi ac Ynys Môn. Mae'r ddau gyfleuster hyn yn boblogaidd iawn ac mae llawer o bobl yn eu defnyddio.
- 1.2.3 Mae Cynllun Corfforaethol CSYM (2017-2022) yn cadarnhau'r amcanion i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor, cefnogi oedolion a theuluoedd agored i niwed a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl a gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau gan amddiffyn ein hamgylchedd naturiol.
- 1.2.4 Mae'r Cynllun yn nodi uchelgais allweddol Cyngor Sir Ynys Môn, gan nodi *"byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach, yn ffyniannus ac yn llewyrchus."*

### **David Hughes (Porthaethwy)**

- 1.2.5 Mae Canolfan Hamdden David Hughes yn cynnwys neuadd chwaraeon, ystafell ffitrwydd, ystafell feicio, stiwdio ddawns, darlithfa a Man Gemau Amlbwrpas (cwrw 5 bob ochr neu 3 chwrt tennis).
- 1.2.6 Yn ystod 2017/2018 roedd gan y Ganolfan 23,282 o gyfranogwyr.

### **Plas Arthur (Llangefni)**

- 1.2.7 Mae'r Ganolfan Hamdden yn cynnwys pwll nofio, pwll addysgu, neuadd chwaraeon, ystafell ffitrwydd, caffi, cwrw sboncen a chae pêl-droed 3G maint llawn a agorwyd yn ddiweddar (Tachwedd 2018).
- 1.2.8 Yn ystod 2017/2018 roedd gan y Ganolfan 195,703 o gyfranogwyr.

### **Canolfan Hamdden Amlwch**

- 1.2.9 Mae'r Ganolfan Hamdden yn cynnwys pwll nofio 25m â phedair lôn, ystafell ar gyfer ymarfer cardiofasgwlar â pheiriannau rhedeg, beiciau llonydd, peiriannau rhwyfo a pheiriannau ffitrwydd. Mae dau gwrw sboncen wedi'u hailwampio fel ystafell pwysau rhydd 56 darn. Mae Canolfan Hamdden Amlwch hefyd yn cynnwys neuadd chwaraeon â phedwar cwrw sy'n addas i bêl-fasged, pêl-foeli a phêl-droed 5-bob-ochr. Y tu allan, mae cae pêl-droed 5-

bob-ochr 3G a chwrt tarmac amlbwrpas y gellir ei ddefnyddio ar gyfer tennis neu bêl-rwyd. Mae gan y ddau gwr awyr agored lifoleuadau.

1.2.10 Roedd gan Ganolfan Hamdden Amlwch 116,431 o gyfranogwyr yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2017.

### **Canolfan Hamdden Caergybi**

1.2.11 Canolfan Hamdden Caergybi yw'r ganolfan hamdden fwyaf a gynhelir gan CSYM, ac roedd ganddi 143,384 o gyfranogwyr yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2017. Mae'r ganolfan yn cynnwys ystafell ffitrwydd, ystafell amlbwrpas, neuadd chwaraeon a dau gwr sboncen. Mae gan y Ganolfan bwl nofio 25m â phum lôn a phwll hyfforddi wrth ei ochr.

1.2.12 Cafodd ystafell ffitrwydd Canolfan Hamdden Caergybi ei hailwampio'n ddiweddar (Hydref 2018) â chyfarpar newydd hyfforddi cardiofasgwlar, gwrthiant a chraidd/ abdomenol i ysbrydoli a galluogi trigolion o bob gallu a phob oed i gadw'n iach.

### **Galw Cudd am Wasanaethau Hamdden**

1.2.13 Cynhaliodd CSYM asesiad o'r galw cudd am ffitrwydd yng nghanolfannau hamdden Ynys Môn a nododd hyn fod cyfanswm galw o 5,864 rhwng y pedair canolfan hamdden. Dyma sut y rhannwyd y niferoedd:

- a) **Canolfan Hamdden Amlwch:**  
1,077 o aelodau
- b) **Canolfan Hamdden David Hughes:**  
1,014 o aelodau
- c) **Canolfan Hamdden Caergybi:**  
1,863 o aelodau
- d) **Canolfan Hamdden Plas Arthur:**  
1,910 o aelodau

1.2.14 Mae Canolfannau Hamdden Ynys Môn yn cynnig nifer o opsiynau aelodaeth i ddarpar gwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys aelodaethau blynyddol sy'n caniatáu i gwsmeriaid archebu a defnyddio cyfleusterau'r canolfannau am gost is ac aelodaeth debyd uniongyrchol. Dyma'r ffigurau presennol (ar 05/05/2017) ar gyfer aelodau Canolfannau Hamdden Ynys Môn:

- a) **Canolfan Hamdden Amlwch:**  
1,287 o aelodau (+19.49%)
- b) **Canolfan Hamdden David Hughes:**  
228 o aelodau (-22.48%)
- c) **Canolfan Hamdden Caergybi:**

2,296 o aelodau (+18.9%)

d) **Canolfan Hamdden Plas Arthur:**

1,989 o aelodau (+4%)

**Cyfanswm nifer yr aelodau = 5,800 (-1%)**

1.2.15 Ar hyn o bryd, mae Canolfannau Hamdden Amlwch, Caergybi a Phlas Arthur yn gwneud yn well nag amcangyfrif yr adroddiad galw cudd; mae Canolfannau Hamdden Caergybi ac Amlwch yn agos at +20%. Er bod y niferoedd ar yr wyneb yn dangos bod David Hughes yn tangyflawni, mae hyn oherwydd bod y ganolfan hamdden yn gyfagos i'r ysgol uwchradd a bod yr oriau agor yn gyfyngedig (17:00 hyd 22:00 ar ddiwrnodau'r wythnos a 09:00 – 14:00 ar benwythnosau).

1.2.16 Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n dangos y galw am gyfleusterau Canolfan Hamdden yn y ddwy ardal y bydd Wylfa Newydd yn effeithio fwyaf arnynt h.y. Amlwch yn y Gogledd a Chaergybi yng Ngorllewin Ynys Môn. Gan fod Canolfan Hamdden Caergybi newydd gael ei hailwampio, gallai'r galw fod yn uwch fyth yn yr ardal hon.

### 1.3 Polisi Cynllunio

#### 1.3.1 Cydgynllun Datblygu Lleol (Gorffennaf 2017)

##### 1.3.1.1 Polisi ISA 1: Darpariaeth Seilwaith

1.3.1.2 Ni chaniateir cynigion oni bai bod digon o gapasiti seilwaith yn bodoli neu ei fod wedi'i ddarparu mewn da bryd. Ar gyfer cynigion sy'n cynhyrchu angen uniongyrchol gysylltiedig am seilwaith newydd neu well na chaiff ei ddarparu gan gwmni seilwaith neu wasanaeth, rhaid i'r cynnig ariannu hyn. Gellir ceisio cyfraniad ariannol i sicrhau gwelliannau i seilwaith, cyfleusterau, gwasanaethau a gwaith cysylltiedig, os oes eu hangen i wneud cynigion yn dderbyniol. Lle bo'n briodol, gellir ceisio cyfraniadau at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys (2) Cyfleusterau chwaraeon a hamdden a (5) Hamdden a manau agored.

##### 1.3.1.3 Polisi ISA 2: Cyfleusterau'r Gymuned

1.3.1.4 Nod Polisi ISA 2 yw diogelu cyfleusterau presennol y gymuned ac annog datblygiad cyfleusterau newydd lle bo'n briodol. Mae cyfleusterau hamdden a chymunedol lleol yn bwysig i anghenion ieched, cymdeithasol, addysgol, ieithyddol a diwylliannol Ardal y Cynllun, yn ogystal â'i lles economaidd.

##### 1.3.1.5 Polisi Strategol PS9: Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig

1.3.1.6 Os nad oes digon o gapasiti o fewn y cyfleusterau hamdden, adwerthu a gofal ieched presennol oddi ar y safle i ddiwallu anghenion meddianwyr y safle neu os nad oes cyfleusterau o'r fath ar gael o fewn pellter derbyniol y

gellir cerdded neu feicio iddynt, rhaid i'r cynnig gynnwys mecanweithiau priodol i liniaru effeithiau anffafriol a allai gynnwys darparu cyfleusterau ategol ar y safle i'r meddianwyr eu defnyddio.

### 1.3.1.7 Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (Mai 2018)

#### Gweledigaeth ac Amcanion

- 1.3.1.8 Gweledigaeth Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd yw bod “*Wylfa Newydd yn sbardun cadarnhaol i drawsnewid economi a chymunedau Ynys Môn, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, **gwella ansawdd bywyd a lles** i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol a chynyddu hunaniaeth a hynodrwydd yr ardal*”.
- 1.3.1.9 Mewnosodwyd y gair 'lles' yn y weledigaeth y tro diwethaf i'r Canllawiau gael eu hadolygu er mwyn adlewyrchu 'targedau lles' y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r adran hon o'r Adroddiad ar yr Effaith Leol gan ei fod yn adlewyrchu pwysigrwydd 'Cymru Iachach'. Diffinnir hyn fel '*cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd*'. Mae lles cenedlaethau'r dyfodol yn un o egwyddorion allweddol y Ddeddf a'r unig ffordd o gyflawni hyn yw drwy ddarparu etifeddiaeth gadarnhaol a chynaliadwy wrth adeiladu Wylfa Newydd ac ar ôl gorffen y gwaith hwnnw.
- 1.3.1.10 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn amlinellu sut y gwireddir y weledigaeth hon mewn saith amcan. Yr amcan perthnasol i'r bennod hon yw Amcan 4 sy'n nodi '*sicrhau bod Prosiect Wylfa Newydd yn cefnogi gwella ansawdd bywyd (gan gynnwys iechyd, tai, llesiant ac amwynder) preswylwyr, ymwelwyr a gweithwyr yn Ynys Môn yn ystod y cyfnod y bydd yn cael ei adeiladu a'i weithredu*'. Mae iechyd a lles corfforol trigolion lleol, ymwelwyr a'r gweithlu adeiladu yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd yn hanfodol bwysig i CSYM.
- 1.3.1.11 Mae sicrhau bod y cyfleusterau a'r gwasanaethau hamdden yn diwallu anghenion y boblogaeth bresennol, y gweithlu ac ymwelwyr yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd yn flaenoriaeth allweddol i CSYM. Os bydd rhywbeth yn effeithio'n anffafriol ar y ddarpariaeth hon, bydd angen i Horizon roi mesurau ar waith i osgoi neu liniaru'r effaith anffafriol honno, neu i wneud iawn amdani.
- 1.3.1.12 EA 6 Cynnal a Gwella Cyfleusterau a Gwasanaethau'r Gymuned
- 1.3.1.13 Mae Egwyddor Arweiniol EA 6 yn datgan '*dylai hyrwyddwr prosiect Wylfa Newydd ac unrhyw ymgeisydd arall sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, gan gynnwys addysg, gofal iechyd, cyfathrebiadau TG/band eang, **cyfleusterau hamdden** a gwasanaethau brys yn barod ar gyfer cyfnodau adeiladu a gweithredu'r prosiect a'i ddatblygiadau cysylltiedig a pherthnasol. Dylai gwasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen i wasanaethu'r prosiect neu i liniaru'r effaith,*

*ac nad ydynt wedi'u lleoli ar brif safle Wylfa Newydd, fod yn gynaliadwy, wedi'u hintegreiddio a dylent arwain at wella cymunedau'r Ynys yn barhaol a sicrhau buddion parhaol iddynt ar ôl i'r prosiect ddod i ben'.*

1.3.1.14 Mae gofynion CSYM wedi'u hamlinellu'n glir yn yr EA uchod. Mae CSYM yn mynnu bod cyfleusterau cymunedol megis hamdden yn barod ar gyfer cyfnodau adeiladu a gweithredu'r prosiect. Fodd bynnag, o ystyried bod CSYM ar hyn o bryd mewn trafodaethau â Horizon ynglŷn â darparu cyfleusterau nofio a hamdden (ar y safle ac oddi arno), ni all CSYM roi sylwadau am gydymffurfiaid Horizon â'r EA hon. Beth bynnag am y trafodaethau hyn, mae disgwyliau CSYM wedi'u hamlinellu'n glir yn yr EA hon a byddent yn disgwyl y gwneir darpariaeth ddigonol **gyda buddion etifeddiaeth i gymunedau'r Ynys** yn unol â'r nodau llesiant.

#### **1.3.1.15 EA 8 Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw**

1.3.1.16 Yn unol â NPS EN-1, Polisi Cynllunio Cymru, TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored a Pholisi ISA 2 y Cydgyllun Datblygu Lleol: Cyfleusterau Hamdden, ni fydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau a all arwain at gollu neu ddifrodi manau agored a chyfleusterau hamdden presennol, a llwybrau cerdded a beicio, neu at effeithiau ar gysylltedd seilwaith gwyrdd oni bai fod darpariaeth briodol yn cael ei gwneud yn eu lle.

1.3.1.17 Bydd y Cyngor Sir yn mynnu bod hyrwyddwr prosiect Wylfa Newydd yn cynnal asesiad cynhwysfawr o effeithiau posibl Prosiect Wylfa Newydd (gan gynnwys effeithiau ar y cyd â chynigion eraill am fuddsoddi yn Ynys Môn) ar fannau agored a **chyfleusterau hamdden** ac adloniant er mwyn sicrhau bod anghenion gweithwyr adeiladu wedi'u diwallu ac na fydd effeithiau niweidiol ar y ddarpariaeth bresennol.

1.3.1.18 Pan fydd angen mwy o fuddsoddi mewn manau agored, cyfleusterau hamdden ac adloniant i ddiwallu'r galw cynyddol neu mewn manau eraill oherwydd y prosiect, dylid lleoli darpariaeth newydd a gwell er mwyn **sicrhau budd parhaol i gymunedau.**

1.3.1.19 Nid yw Horizon wedi gwneud digon i ystyried effeithiau cynnig Wylfa Newydd ar y ddarpariaeth hamdden oddi ar y safle. Bydd 3,000 o weithwyr nad ydynt wedi'u lleoli gartref yn byw yn y cymunedau presennol (a'u teuluoedd a'u dibynyddion), a gweithwyr yn byw mewn llety dros dro a allai hefyd ddefnyddio'r cyfleusterau hyn, felly gallai'r effaith hon fod yn sylweddol. Mae CSYM wedi comisiynu astudiaeth i asesu'r effeithiau hyn, ond nid yw Horizon wedi cynnal ymarfer tebyg i ganfod beth yw'r effeithiau hyn a pha gamau lliniaru sydd eu hangen. Mae unrhyw effaith anffafriol ar wasanaethau a chyfleusterau hamdden presennol o ganlyniad i Wylfa Newydd yn **annerbyniol**. Bydd angen osgoi'r effeithiau hyn lle bynnag y bo'n bosibl (e.e. mwy o ddarpariaeth yn y campws ar y safle), eu lliniaru (er mwyn i CSYM ddarparu'r gwasanaethau hyn) neu wneud iawn amdanynt (lle na ellir lliniaru'r effeithiau).



## 1.4 Effeithiau a Sail Dystiolaeth

- 1.4.1 Ym mis Mehefin 2018, comisiynodd CSYM AECOM i gynnal asesiad o gynnyg Horizon ar gyfer cyfleusterau canolfan hamdden o fewn y campws ar y safle. Diben yr astudiaeth oedd canfod a oedd y ddarpariaeth ar y safle'n ddigonol i ddiwallu anghenion y 4,000 o weithwyr, ac os nad oedd, sut y byddai hyn yn effeithio ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau hamdden sy'n bodoli. Roedd cwmpas yr astudiaeth yn cynnwys:
- Cynnal asesiad sylfaenol o'r capasiti presennol yng Nghanolfan Hamdden Amlwch;
  - Asesu'r cynigion ar gyfer darpariaeth hamdden ar y safle sy'n gysylltiedig â'r Llety Dros Dro i Weithwyr i asesu a yw'n ddigonol i ddiwallu anghenion 4,000 o weithwyr;
  - Canfod ac asesu senarios ar gyfer y galw am ganolfan hamdden yn y dyfodol o ganlyniad i Wylfa Newydd, yn ystod y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu;
  - O'r asesiad manwl hwn a gan ddefnyddio tystiolaeth o fannau eraill, sefydlu pa ddarpariaeth neu gyfraniad ariannol sydd ei angen i liniaru yn erbyn unrhyw effeithiau anffafriol posibl ar Ganolfan Hamdden Amlwch (ar gyfer pob senario a nodwyd) o ganlyniad i Wylfa Newydd; ac
  - Ystyried y goblygiadau i hamdden yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd o adleoli ysgolion lleol i safle cyfagos i Ganolfan Hamdden Amlwch.
- 1.4.2 Estynnwyd cwmpas yr astudiaeth i gynnwys Canolfan Hamdden Caergybi gan fod y dystiolaeth yn dangos y byddai ardal Caergybi yn ddewis poblogaidd ar gyfer llety i'r gweithwyr o ystyried y llety, gwasanaethau, cyfleusterau ac ati sydd ar gael. Er ei bod yn debygol y bydd Wylfa Newydd yn effeithio ar yr holl gyfleusterau hamdden ar yr Ynys, nid oedd yr Astudiaeth yn cynnwys Canolfan Hamdden Plas Arthur (Llangefni) na Chanolfan Hamdden David Hughes (Porthaethwy).
- 1.4.3 Roedd yr Adroddiad Hamdden yn cyflwyno nifer o senarios i amlinellu'r cyfraniad ariannol posibl y gellid ei geisio gan Horizon i liniaru effaith gweithlu adeiladu dros dro Wylfa Newydd ar gyfleusterau hamdden Ynys Môn. Mae'r adroddiad yn asesu'r 6 senario canlynol:
- Senario 1** – Mae'r cyfleusterau hamdden ar y safle a ddarperir gan Horizon yn diwallu anghenion y gweithlu adeiladu;
  - Senario 2** – Nid yw'r cyfleusterau hamdden ar y safle a ddarperir gan Horizon yn bodloni gofynion y gweithlu adeiladu dros dro o ran lle;
  - Senario 3** – Cyfraniad cyfalaf i sicrhau y darperir cyfleusterau hamdden o safon sy'n ystyried capasiti'r ddarpariaeth bresennol;
  - Senario 4** – Darpariaeth hamdden i ddiwallu anghenion gweithwyr dros dro a'r boblogaeth barhaol;
  - Senario 5** – Cyfraniad refeniw at gyfleusterau nofio; a
  - Senario 6** – Ymrwymiad 60 mlynedd i gyfleusterau hamdden i'r gweithlu gweithredol.

- 1.4.4 Ar ôl adolygu'r gwahanol senarios, nid yw **'Senario 1'** yn bosibl gan nad yw Horizon yn cynnig darparu'r cyfleusterau gofynnol i ddiwallu anghenion yr holl weithlu adeiladu. Nid yw ychwaith yn ymarferol bod 7,000 o weithwyr nad ydynt wedi'u lleoli gartref yn defnyddio'r cyfleusterau ar y safle o ystyried y pellter o'u preswylfa bosibl i'r cyfleuster. Ni ystyrir bod **'Senario 2'** (h.y. Horizon yn lliniaru'r diffyg cyfleusterau ar y safle yn unig) yn briodol ychwaith, gan nad yw'n ystyried y 7,000 o weithwyr nad ydynt wedi'u lleoli gartref a'u teuluoedd (h.y. dim ond yn ystyried y diffyg i ddiwallu angen y 4,000). Roedd **'Senario 3'** yn asesu'r capasiti presennol ac yn gosod cynigion Horizon (h.y. darpariaeth ar y safle) a'r galw ganddynt ar ben y ddarpariaeth hon. Roedd hyn yn canfod pa mor brin y byddent o ateb galw gweithwyr adeiladu Wylfa Newydd. Fodd bynnag, nid oedd y senario hon yn ystyried angen y boblogaeth barhaol bresennol a sut y byddai gweithwyr adeiladu Wylfa Newydd yn effeithio ar argaeledd y cyfleusterau hyn i bobl leol. Felly, roedd **'Senario 4'** yn asesu'r ddarpariaeth hamdden sydd ei hangen i ddiwallu anghenion Gweithwyr Adeiladu Wylfa Newydd a'r boblogaeth barhaol.
- 1.4.5 Gan gydnabod na fydd Horizon yn lliniaru ar gyfer gweithlu adeiladu Wylfa Newydd ac angen y boblogaeth barhaol, y realiti yw y bydd y lliniaru'n cynnwys **cyfuniad o opsiynau lliniaru o senario 3 a hefyd o senario 4**. Er enghraifft, ni allwch adeiladu hanner neuadd chwaraeon i ateb y galw ychwanegol gan weithwyr adeiladu Wylfa Newydd yn unig. Rhaid i hyn ystyried angen y boblogaeth barhaol a bod ar gael iddynt. Ni allwch ychwaith ychwanegu lôn nofio at bwl, felly bydd angen iawndal am yr effeithiau hyn na ellir eu hosgoi na'u lliniaru. Mae **'Senario 5'** a **'Senario 6'** yn edrych ar gyfraniadau refeniw tuag at ddarparu'r cyfleusterau hyn yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.
- 1.4.6 Mae CSYM yn cael trafodaethau â Horizon ar hyn o bryd i ganfod gwerth y cyfraniad sydd ei angen ar gyfer darpariaeth hamdden a nofio. Mae'r ffigurau a gynhwysir yn yr 'Adroddiad Hamdden' yn seiliedig ar arweiniad Cenedlaethol o'r 'Sports England Calculator' (nid oes arweiniad cyfatebol ar gyfer Cymru). O ystyried bod angen amrywiaeth o fesurau, ac nad yw CSYM yn gwybod ble bydd y gweithwyr yn byw (ac felly ble bydd yr effaith) bydd angen i'r cyfraniad ariannol gan Horizon i lliniaru'r effaith hon fod yn hyblyg.
- 1.4.7 Ar ôl gwneud y gwelliannau hamdden a nofio hyn, bydd monitro'n hanfodol ac efallai y bydd angen camau lliniaru ychwanegol drwy'r Gronfa Gwytnwch Cymunedol os yw'r effeithiau'n fwy sylweddol nag a ragwelwyd, neu'n cael eu teimlo yn rhywle arall. Er enghraifft, nid yw'r Astudiaeth Hamdden yn cynnwys Canolfan Hamdden Plas Arthur yn Llangedfni. Yn ddiweddar (Tachwedd 2018), gosodwyd cae 3G maint llawn ym Mhlas Arthur (y cyntaf ar yr Ynys). Gallai hwn fod yn atyniadol i weithwyr, a fyddai'n effeithio ar allu'r trigolion presennol i ddefnyddio'r cyfleuster newydd hwn.

## 1.5 Gofynion ac Ymrwymadau DCO

- 1.5.1 Mae CSYM yn cael trafodaethau a.106 â Horizon ar hyn o bryd. Cynhwysir manylion am yr ymrwymadau hyn yn y Datganiad Tir Cyffredin a chyflwynir y Cytundeb a.106 drafft i PINS erbyn dyddiadau cau yn y dyfodol.

- a) **Darpariaeth Hamdden** – Bydd ar CSYM angen cyfraniad ariannol tuag at wella'r cyfleusterau Canolfan Hamdden sy'n bodoli ar yr Ynys i ateb y cynnydd yn y galw o ganlyniad i Wylfa Newydd.
- b) **Darpariaeth Nofio** – Bydd ar CSYM angen cyfraniad ariannol tuag at wella'r cyfleusterau nofio (gan gynnwys ystafelloedd newid) yn y Canolfannau Hamdden sy'n bodoli.

## 2.0 Cydlyniant Cymunedol

### 2.1.1 Cyd-destun

2.1.1.1 Mae gan Ynys Môn synnwyr cryf o hunaniaeth gymunedol, er y gallai'r cymunedau newid yn hawdd. Gallai mewnlifiad o weithwyr sy'n gysylltiedig ag adeiladu Prosiect Wylfa Newydd greu tensiynau cymdeithasol a allai yn eu tro effeithio ar gydlyniant ac erydu hunaniaeth gymunedol. Felly, mae ystyried effeithiau'r prosiect ar gydlyniant cymunedol yn flaenoriaeth. Mae NPS EN-1 (ym mhara. 5.12.3) yn mynnu bod ymgeiswyr yn asesu effaith bosibl mewnlifiad newidiol o weithwyr yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu'r seilwaith ynni ar gydlyniant cymunedol.

2.1.1.2 Yn y Cydgyllun Datblygu Lleol, mae Polisi Strategol PS9: Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig yn mynnu y dylai cynigion Wylfa Newydd gynnwys mesurau priodol i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a diogelwch cymunedol ac mae PS 10 Wylfa Newydd – Campws Llety Dros Dro i Weithwyr Adeiladu yn mynnu bod effeithiau ar gyfleusterau a gwasanaethau'n cael eu lliniaru.

2.1.1.3 Rhaid ystyried nifer o nodweddion unigryw a phwysig cymunedau'r Ynys wrth ystyried effaith bosibl Prosiect Wylfa Newydd ar gydlyniant cymunedol. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys:

- a) Pobl iau'n allfudo oherwydd bod diffyg swyddi, cyfleoedd hyfforddi a thai fforddiadwy ar gael;
- b) Unigedd unigolion a chymunedau difreintiedig, a chynnydd mewn anghydraddoldeb cymdeithasol;
- c) Ardaloedd o amddifadedd difrifol - mae Tref Caergybi yn cynnwys Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd o fewn y 10% neu'r 20% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae ardaloedd difreintiedig eraill i'w cael yn Llangefni ac Amlwch;
- d) Cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg, ond mae'r gyfran yn gostwng;
- e) Lefelau troseddu isel - mae Ynys Môn yn un o'r mannau mwyaf diogel i fyw a gweithio ynddynt yng Ngogledd Cymru, ac mae'r lefelau troseddu wedi aros yn eithaf cyson dros y saith mlynedd diwethaf; a
- f) Perifferoldeb gwledig, tlodi tanwydd a chynnydd mewn costau trafndiaeth sy'n gysylltiedig â byw yn y wlad.

2.1.1.4 Mae'n debygol y bydd y gweithlu adeiladu ei hun yn ddiwylliannol amrywiol ac felly bydd yn bwysig i hyrwyddwr y prosiect hefyd ystyried yn ofalus sut y

gellir cyflawni cydlyniant ac integreiddio effeithiol ymysg gweithwyr Wylfa Newydd. Dylid cynnig mesurau i gyflawni hyn fel rhan o unrhyw gais.

## **2.2 Polisi Cynllunio**

### **2.2.1 Cydgynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd (mabwysiadwyd Gorffennaf 2017)**

2.2.1.1 Cydgynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd yw'r Cynllun Datblygu a fabwysiadwyd ar gyfer Ynys Môn. Mae'r Cydgynllun yn amlinellu'r polisiâu cynllunio sy'n helpu i ategu'r broses o ddatblygu cymunedau cynaliadwy a chydlynol ar Ynys Môn. Amlinellir y polisiâu perthnasol isod:

#### **2.2.2 PS1: Y Gymraeg a Diwylliant**

2.2.2.1 Mae Polisi Strategol PS1 yn cydnabod bod cynnal a chryfhau'r Gymraeg yn bwysig er mwyn hyrwyddo cymunedau cydlynol ledled yr Ynys. Mae PS1 yn ceisio sicrhau nad yw'r cynigion yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned (maen prawf 3).

#### **2.2.3 PS5: Datblygu Cynaliadwy**

2.2.3.1 Mae Polisi Strategol PS5 yn amlinellu'r egwyddorion datblygu cynaliadwy sy'n rhoi sail i'r polisiâu yn y Cydgynllun. Y bwriad yw sicrhau bod pob datblygiad yn cyfrannu at greu cymunedau cytbwys gan sicrhau y cefnogir y cymunedau hyn gan wasanaethau a gweithgareddau diwylliannol digonol (maen prawf 3).

#### **2.2.4 PS 9 Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig**

2.2.4.1 Mae Polisi Strategol PS9 yn amlinellu'r ddarpariaeth bolisi gyffredinol ar gyfer Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig. Mae'r polisi'n cydnabod bod gan y prosiect ran bwysig i'w chwarae o ran cyfrannu at ddatblygu cymunedau cydlynol. Mae'n nodi "dylai cynigion gynnwys mesurau priodol i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a diogelwch cymunedol" (maen prawf 11). I gydymffurfio â darpariaethau PS 9, felly, mae'n hanfodol y gall hyrwyddwr y prosiect ddangos bod mesurau priodol ar waith i hyrwyddo cymunedau cydlynol ar yr Ynys.

#### **2.2.5 PS 10 Wylfa Newydd – Campws Llety Dros Dro i Weithwyr Adeiladu**

2.2.5.1 Mae Polisi Strategol PS10 yn amlinellu darpariaethau penodol ar gyfer llety dros dro i weithwyr adeiladu. Mae'r polisi'n amlinellu nifer o feini prawf sy'n cynorthwyo'r datblygiad ac yn lliniaru effeithiau anffafriol ar y Gymraeg a diwylliant; mae'r Cydgynllun Datblygu Lleol drwyddo draw'n cydnabod bod hyn yn ganolog i gymunedau cydlynol ar Ynys Môn.

## 2.2.6 Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (Mai 2018)

2.2.6.1 Mae CSYM yn mynnu bod hyrwyddwr y prosiect yn ystyried yn llawn yr angen i sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith anffafriol ar gydlyniant cymunedol a hefyd, lle nodir effaith anffafriol, y rhoddir mesurau ar waith i wella integreiddio a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Dyma'r Egwyddorion Arweiniol sy'n berthnasol i gydlyniant cymunedol:

## 2.2.7 EA9a Cynnal a Chreu Cymunedau Cydlynol

2.2.7.1 Mae EA9a yn datgan bod rhaid i hyrwyddwr prosiect Wylfa Newydd a phob ymgeisydd ar gyfer datblygiadau cysylltiedig a pherthnasol (gan gynnwys llety trydydd parti ar gyfer gweithwyr) ystyried yn llawn y posibilrwydd y gallai adeiladu a gweithredu'r prosiect effeithio ar gydlyniant cymunedol, diogelwch ac anghydraddoldebau cymdeithasol. Bydd hefyd yn hanfodol bod hyrwyddwr y prosiect ac unrhyw ymgeisydd arall yn ystyried yn llawn amrywiaeth ddiwylliannol y gweithlu adeiladu i sicrhau y cyflawnir cydlyniant ac integreiddio effeithiol'.

## 2.2.8 Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (Mai 2018)

2.2.8.1 Mae CSYM yn mynnu bod hyrwyddwr y prosiect yn ystyried yn llawn yr angen i sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith anffafriol ar gydlyniant cymunedol a hefyd, lle nodir effaith anffafriol, y rhoddir mesurau ar waith i wella integreiddio a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Dyma'r Egwyddorion Arweiniol sy'n berthnasol i gydlyniant cymunedol:

## 2.2.9 EA9a Cynnal a Chreu Cymunedau Cydlynol

2.2.9.1 Mae EA9a yn datgan bod *rhaid i hyrwyddwr prosiect Wylfa Newydd a phob ymgeisydd ar gyfer datblygiadau cysylltiedig a pherthnasol (gan gynnwys llety trydydd parti ar gyfer gweithwyr) ystyried yn llawn y posibilrwydd y gallai adeiladu a gweithredu'r prosiect **effeithio ar gydlyniant cymunedol, diogelwch ac anghydraddoldebau cymdeithasol***. Bydd hefyd yn hanfodol bod hyrwyddwr y prosiect ac unrhyw ymgeisydd arall yn ystyried yn llawn amrywiaeth ddiwylliannol y gweithlu adeiladu i sicrhau y cyflawnir cydlyniant ac integreiddio effeithiol'.

## 2.3 Effeithiau a Sail Dystiolaeth

2.3.1 Mae Horizon wedi paratoi adroddiad cydlyniant cymunedol<sup>1</sup> â'r bwriad o ganfod yr effeithiau posibl ar y gymuned o ganlyniad i weithwyr nad ydynt wedi'u lleoli gartref yn cyrraedd yr ardal. Defnyddiwyd hwn i roi sail i'r Adroddiad Effaith Cymunedol<sup>2</sup> sydd hefyd wedi ystyried asesiadau perthnasol a chasgliad amrywiaeth ehangach o ddogfennau ceisiadau, ond yn bennaf yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r Strategaeth Rheoli'r Gweithlu. Mae'n rhoi crynodeb o'r effeithiau ar saith maes astudio a'r mesurau lliniaru a gynigiwyd.

---

<sup>1</sup> Cyfeirnod archwilio [APP-097]

<sup>2</sup> Cyfeirnod archwilio [APP-435]

2.3.2 Mae CSYM wedi adolygu'r Adroddiad Effaith Cymunedol a'r dogfennau asesu y cyfeiriwyd atynt uchod. Maent wedi canfod sut y gallai'r effeithiau canlynol fod yn anffafriol.

### **Tensiwn Cymunedol**

2.3.3 Mae'n bosibl y bydd trigolion Bodedern, Bryngwran, Llanfihangel yn Nhywyn ac RAF Fali yn dioddef tagfeydd traffig o ganlyniad i waith adeiladu ar y prif safle ac yn bennaf ar hyd yr A5025. Er bod dogfennau Horizon yn awgrymu y bydd modd rheoli'r effeithiau, mae CSYM yn pryderu nad ydynt wedi gwneud digon i ystyried yr effaith ar amwynder trigolion y pentrefi hyn o ran yr effaith ar eu trefniadau teithio dyddiol i fynd i'r gwaith, i siopa, neu i deithio o gwmpas Gorllewin Ynys Môn. Gallai tagfeydd ac oediadau i yrwyr, neu hyd yn oed y teimlad bod hynny'n bosibl o ganlyniad i'r prosiect, gyfrannu at densiwn cymunedol ymysg y boblogaeth leol a gallai hyn ymestyn i gymunedau yn ardaloedd Llanfairpwll a Menai pe bai'r drydedd bont ger Pont Britannia yn cael ei hadeiladu.

2.3.4 Gallai tensiwn cymunedol hefyd gynyddu o ganlyniad i ddadleoli tenantiaid oherwydd cynyddiadau rhent neu wrth i landlordiaid ddadleoli tenantiaid presennol gan obeithio denu gweithwyr adeiladu a allai dalu mwy. Mae'n bosibl mai'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas e.e. rhai sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, pobl â phroblemau iechyd meddwl ac ati a fydd yn wynebu cael eu dadleoli a gallai hyn olygu bod rhaid iddynt symud i ardaloedd nad ydynt yn goddef eu hymddygiad cystal a bod hyn yn arwain at deimladau o unigedd, problemau iechyd meddwl cysylltiedig a tharfu ar y gymuned.

2.3.5 Mae CSYM yn ymwybodol bod tref Caergybi yn hanesyddol wedi profi rhywfaint o waith rhyw pan oedd glanfa Alwminiwm Môn yn weithredol, a phan oedd yn gweithredu mwy fel porthladd nwyddau. Byddai dychwelyd at lefelau presennol, neu hyd yn oed uwch, o waith rhyw yn anfantais fawr i gydlyniant cymunedol ac yn arwain at densiwn cymunedol. Mae CSYM yn deall bod Heddlu Gogledd Cymru wedi sefydlu grŵp Gweithwyr Rhyw rhanbarthol i leihau camdriniaeth a lledaeniad heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Mae CSYM yn pryderu bod datblygu'r campws ger Tregele a Chemaes a'i lenwi â gweithlu sy'n ddynion yn bennaf yn rhywbeth a allai fod yn ddeniadol i weithwyr rhyw. Mae hyn yn bryder mawr i'r cymunedau cyfagos a byddai'n cynyddu tensiwn cymunedol.

2.3.6 Mae tensiwn cymunedol yn agwedd allweddol ar gydlyniant cymunedol ac mae wedi bod yn flaenoriaeth ers blynyddoedd lawer i Lywodraeth Cymru. Mae'r cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol yn monitro tensiwn cymunedol yn ddyddiol ac yn wythnosol drwy fonitro cyfryngau cymdeithasol, sianeli cyfryngau traddodiadol e.e. radio, teledu, papurau newydd ac ati. Mae Arolygon Cymuned Llywodraeth Cymru yn casglu ystadegau'n rheolaidd ynglŷn â chydlyniant cymunedol a lles, a bydd unrhyw ddata neu wybodaeth anffafriol ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddau casineb yn cynorthwyo i dynnu sylw at unrhyw ardaloedd â phroblem o ran tensiwn cymunedol.

## Troseddau Casineb

2.3.7 Mae Grŵp Tactegol Troseddau Casineb Gogledd Cymru yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu ystadegau Troseddau Casineb ac i gydlynu unrhyw ymateb a wneir yn lleol gyda phartneriaid Diogelwch Cymunedol.

2.3.8 Mae data gwaelodlin ar gyfer troseddau casineb yn amrywio ar draws gwahanol ardaloedd, ond i roi'r sefyllfa bresennol, roedd ffigurau troseddau casineb 2018 ledled ardal Heddlu Gogledd Cymru i fyny 28.4% o gymharu â ffigurau'r flwyddyn hyd yma ar gyfer 2017, ac ar Ynys Môn cynyddodd y ffigurau 29%. Hil, cyfeiriadedd rhywiol ac anableded oedd y categorïau uchaf yn ôl Cymorth i Ddiodefyr.

2.3.9 Mae'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n cael eu riportio yn awgrymu bod mwy o bobl wedi dod yn ymwybodol o Droseddu Casineb, a bydd yn bwysig cadw llygad ar y data gwaelodlin i sicrhau ei bod yn hawdd sylwi ar unrhyw gynnydd posibl oherwydd Wylfa Newydd. Mae'n bosibl y gallai Troseddu Casineb gynyddu o ganlyniad i ddatblygiad Wylfa Newydd am nifer o resymau:

- a) Mwy o densiwn rhwng y boblogaeth frodorol leol a'r gweithwyr adeiladu (gweler uchod);
- b) Tensiynau rhwng gweithwyr adeiladu nad ydynt yn hanu'n wreiddiol o'r ynys a'r boblogaeth leol;
- c) Cynnydd yng nghyfanswm poblogaeth Ynys Môn h.y. mwy o bobl yn golygu cynnydd yn y posibilrwydd ystadegol o droseddu casineb.

2.3.10 Mae CSYM yn croesawu ymrwymiad Horizon i ddarparu pecyn sefydlu cynhwysfawr i weithwyr, a fydd yn helpu i esbonio diwylliant a thraddodiadau lleol, ond y risg fwyaf i gynnydd mewn troseddu casineb yw'r potensial am safbwyntiau a chyfansoddiadau eithafol mewn rhai cymunedau penodol ac nid yw CSYM yn credu bod unrhyw becyn sefydlu i staff yn debygol o newid agweddau tuag at y gweithwyr oni bai y gwneir gwaith gydag ardaloedd sy'n 'wynebu risg' yn seiliedig ar wybodaeth.

2.3.11 Gallai'r potensial am ddigwyddiadau troseddau casineb fod yn fwy mewn rhai lleoliadau a sefyllfaoedd, er enghraifft ardaloedd sy'n masnachu ar economi'r nos. Efallai na fyddai'r fath nifer o weithwyr adeiladu mewn ardal gosmopolitaidd megis Lerpwl neu Fanceinion yn denu cynnydd o'r fath, ond mae'n bosibl y gallai nifer mawr y gweithwyr adeiladu mewn ardal wledig sy'n bennaf Gymreig a gwyn o ran ethnigrwydd achosi canlyniadau mwy eang.

## Ymgysylltu â'r Gymuned a Chyfathrebu

2.3.12 Mae Horizon wedi cynnig penodi 'Swyddogion Ymgysylltu â'r Gymuned' (SYG) newydd i ymdrin â materion megis y rhai a nodwyd uchod. Fodd bynnag, nid ydynt wedi ystyried yr angen am ragor o gapasiti cydlyniant cymunedol o fewn CSYM, na'r Heddlu a'r sector gwirfoddol. Er y bydd penodi 'SYGion' yn cynorthwyo drwy greu mwy o gapasiti i fynd i'r afael â materion cymunedol, wedi'u cyflogi gan Horizon, mae'n annhebygol y bydd y swyddogion hyn mewn cysylltiad â grwpiau a chyfarfodydd allweddol ynglŷn â chydlyniant

cymunedol, nac ychwaith yn gallu defnyddio pecynnau offer a ddatblygwyd gan bartneriaid allweddol i asesu neu ymdrin ag agweddau ar densiwn cymunedol.

2.3.13 Byddai CSYM yn gofyn am ariannu o leiaf 5 SYG, wedi'u rheoli gan sefydliad annibynnol er eu hygredd ac i weithredu fel pont gref rhwng y datblygwr, gwasanaethau cyhoeddus a'r cyhoedd. Dylai pob SYG gael swyddogaethau arweiniol o fewn ei ddisgrifiad swydd, nid dim ond swyddogaethau a ddyrennir yn seiliedig ar ardal ddaearyddol. Dylid eu lleoli'n agos at brif safle'r prosiect a darparu rhagorsafoedd cymunedol e.e. swyddfa neu neuadd bentref yn agos at Fae Cemaes, a dylid penodi rheolwr tîm â chymorth gweinyddol i oruchwylio'r gwaith a rheoli'r tîm SYG ac i helpu i baratoi a chynnal llinellau cyfathrebu da.

2.3.14 Er mwyn i unrhyw brosiect weithio'n effeithiol o ran rheoli'r prosiect, mae angen strwythur hierarchaidd i ddangos sut y mae gwybodaeth yn llifo i mewn ac allan o strwythurau cyflenwi. Ni welwyd dim yn y dogfennau a adolygwyd i esbonio sut y byddai cyfeiriadau'n cyfrannu at grwpiau allweddol presennol a sefydlwyd i ymdrin â phynciau penodol, e.e. Diogelu, Caethwasiaeth, Tensiwn Cymunedol, Troseddau Casineb a Chydlyniant Cymunedol cyffredinol. Mae'n hanfodol i'r genhadaeth bod system gyfeirio gyffredin ar gyfer mathau penodol o broblemau a bod atebolrwydd terfynol am ddatrys unrhyw gwynion a materion a allai godi yn ystod y prosiect. Bydd mecanwaith o'r fath yn hanfodol er mwyn magu hyder y cyhoedd ac ymdrin ag unrhyw gynnydd mewn tensiwn yn y gymuned a materion cydlyniant cymunedol.

2.3.15 Os bydd effeithiau'n digwydd, neu os bydd aelodau'r gymuned yn teimlo eu bod yn digwydd, o ganlyniad i Wylfa Newydd bydd yn hanfodol bod modd cadarn o riportio hyn a chyfathrebu am y peth. Nid yw Horizon wedi rhoi digon o fanylion am y strwythur cyfathrebu rhyngddynt a'r cyhoedd, na rhyngddynt a gwasanaethau cyhoeddus allweddol a'r sector gwirfoddol. Er eglurder, mae angen cynllun cyfathrebiadau ar gyfer y prosiect i ddangos y strwythur hierarchaidd y cyfeirir ato uchod.

2.3.16 Hefyd, bydd angen bod yn rhagweithiol wrth gyfathrebu â'r cymunedau lleol sy'n bodoli. Dylid cytuno sut i ddarparu gwybodaeth ymlaen llaw i'r cyhoedd ynglŷn ag er enghraifft symud llwythi llydan, yr angen i ddargyfeirio ffyrdd neu gau ffyrdd, unrhyw rybudd am ffrwydro creigiau, sŵn eithafol neu amodau llychlyd ac ati, a dylid cytuno â CSYM ymlaen llaw ynglŷn â'r protocol cyfathrebu. Er enghraifft, mae'r is-CoCP i'r A5025 [APP-420] yn cyfeirio at fwriad i hysbysu trigolion a pherchenogion tir o fewn 100m i'r ffordd yn unig. Nid yw hyn yn dderbyniol.

2.3.17 Mae angen rhoi mecanweithiau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael yn rhwydd i'r cymunedau lleol presennol. Mae angen cyfeiriadur o rifau cyswllt a gwefannau/negeseuon e-bost ac ati fel bod y cyhoedd yn gwybod pwy y dylid cysylltu â hwy ynglŷn â pha broblem bosibl neu fater a allai fod yn effeithio arnynt. Hefyd, ystyrir bod y 'llynell gwynion 24awr' a gynigiwyd yn afrealistig i asiantaethau allanol, ac ym mhrofiad CSYM ni fyddai'r cyhoedd fel rheol yn cwyno am broblem wrth yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n achosi'r broblem, ond byddent yn cwyno wrth yr asiantaethau gorfodi. Felly, mae angen darpariaeth i gryfhau capasiti sefydliadau sy'n bodoli eisoes i dderbyn rhagor o



gwynion oddi mewn ac oddi allan i oriau busnes arferol. Byddai creu un drefn gwyno hefyd o fantais.

2.3.18 Mae Horizon yn cynnig defnyddio 'Grŵp Iechyd a Lles' a 'grŵp rhanddeiliaid allanol' i ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau. Mae CSYM yn pryderu am gynnig Horizon i gadeirio'r grwpiau gan nad yw'n gorff cyhoeddus. Mae CSYM yn pryderu y gallai hyn arwain at ganfyddiad gwir neu ddychmygol o duedd a byddai CSYM yn argymhell bod gan y grwpiau gadeiryddion annibynnol.

2.3.19 Barn CSYM yw bod cyfrifoldebau'r 'grŵp monitro Iechyd a Lles' arfaethedig yn llawer rhy amrywiol ac nad ydynt yn cyd-fynd â grwpiau arbenigol sy'n bodoli eisoes ac sy'n gweithio ar draws yr ardal: y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer Troseddu, y Bwrdd Diogelu Lleol ar gyfer pobl agored i niwed, y Bwrdd Cydlyniant Cymunedol ar gyfer Tensiwn Cymunedol a Grŵp Tactegol Troseddau Casineb Gogledd Cymru ar gyfer ymdrin â Throseddau Casineb a chynorthwyo dioddefwyr, er enghraifft. Mae'r rhain yn faterion arbenigol ac felly ni ddylai'r grŵp generig eu trin ac eithrio i gyfeirio a dilyn cynnydd canlyniadau. Byddai CSYM yn gofyn am i'r grŵp monitro Iechyd a Lles fod yn sefydliad amlasiantaeth i ymdrin â chyfeiriadau problemus mewn gwahanol leoliadau, o dan wahanol themâu neu ffrydiau, i gefnogi dioddefwyr, ac i ddilyn / monitro gwahanol gynlluniau gweithredu. Mae problemau'n aml yn gallu achosi effeithiau amlweddol, ac fel rheol ni all un gwasanaeth eu datrys, a byddai strwythur o'r fath yn ddelfrydol i broblemau unigol neu amlweddol.

2.3.20 Yn ogystal â chyfathrebu â'r gymuned ac â darparwyr gwasanaethau, hoffai CSYM ofalu y ceir cyfathrebu llawn a digonol â'r gweithlu adeiladu. Byddai angen archwilio cynnwys unrhyw becynnau hyfforddi neu becynnau codi ymwybyddiaeth a'u cyfieithu (nid yn unig o'r Saesneg i'r Gymraeg, ond i famiaith pob gweithiwr adeiladu) a dylid ceisio mewnbwn i bob dogfen o'r fath gan bartneriaid lleol i sicrhau bod ymgyrchoedd cenedlaethol a strwythurau cyflenwi lleol yn gwbl gydnaws â'i gilydd.

## **Adnoddau**

2.3.21 O fewn y Strategaeth Rheoli'r Gweithlu, mae angen cydnabod na fydd pob gwasanaeth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad wedi'i gloi yng nghytundebau gweithwyr ac felly o dan reolaeth Horizon. Bydd nifer o wasanaethau cysylltiedig yn gobeithio manteisio ar bresenoldeb y gweithlu, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r niferoedd yn fawr (Gogledd Ynys Môn). Mae gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyfleusterau adloniant dros dro ac ehangiad anghymesur i 'economi'r nos', er enghraifft, yn debygol o achosi goblygiadau i adnoddau'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n bodoli eisoes. Gallai'r costau ymchwilio a chefnogi sy'n gysylltiedig â materion o'r fath gael effaith anffafriol ar lefel y gwasanaeth y gall CSYM a'u partneriaid ei ddarparu i'r cymunedau lleol presennol a heb reoli hyn mewn modd sensitif, byddai'n hawdd iddo gynyddu tensiwn yn y gymuned. Felly, mae angen adnoddau i gefnogi'r gwasanaethau cymunedol a ddarperir yn gyhoeddus ac yn wirfoddol ar hyn o bryd.

### 3.0 Lliniaru

- 3.1 Fel ymateb i'r effeithiau posibl a nodwyd, mae CSYM wedi canfod angen am liniaru ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a gynigiwyd gan Horizon.
- 3.2 Dylai corff annibynnol gadeirio'r Grŵp Ymgysylltu â'r Gymuned arfaethedig, yn hytrach na Horizon.
- 3.3 Er mwyn lleihau tensiwn yn y gymuned, ac osgoi rhwystredigaeth i ddefnyddwyr ffyrdd lleol, dylid mynnu bod gweithwyr adeiladu'n defnyddio'r prif ffyrdd i fynd i'r cyfleuster parcio a theithio, h.y. yr A55. Ni ddylid defnyddio'r ffordd drwy bentref Bryngwran fel 'llwybr byr' i gyrraedd cyffordd nesaf yr A55 wrth deithio i'r Dwyrain ar ôl gadael y maes parcio a theithio. Yn yr un modd, byddai cynnydd yn y traffig drwy ganol Bodedern yn debygol o gynyddu tensiwn yn y gymuned. Fel y'u cyflwynwyd, ychydig iawn o fanylion penodol sydd yn y CoCP a'r is-CoCPau ynglŷn â rheoli traffig gweithwyr adeiladu ac yn benodol pa ffordd y bydd rhaid iddynt fynd.
- 3.4 Mae angen datblygu un drefn gwyno 'amlasiantaeth' sy'n cynnwys y llwybrau presennol ar gyfer pryderon oddi mewn ac oddi allan i oriau busnes. Mae angen i'r drefn hon hefyd gynnwys cyfraniadau gan y trydydd sector (yn enwedig gwasanaethau arbenigol a ddarperir ar gyfer Troseddau Casineb, Caethwasiaeth Fodern, Camddefnyddio Sylweddau ac ati).
- 3.5 Dylid cadw llygad ar ddeiliaid tenantiaeth sydd ar incwm isel (yn enwedig rhai a all fod yn agored i niwed neu'n dioddef o anhwylder) er mwyn osgoi, lle bynnag y bo'n bosibl, unrhyw ddadleoliad o ganlyniad i renti uwch neu fwy o alw gan weithwyr adeiladu am lety. Mae angen rhwyd ddiogelwch er mwyn osgoi dadleoli trigolion sydd â llawer o anghenion neu'n cael triniaeth e.e. am iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau. Pe bai tenantiaeth yn wynebu risg, dylid ystyried darparu arian atodol / arian cyfatebol neu roi cymorth ariannol ar gyfer cynnydd mewn rhent neu rent newydd mewn lleoliad addas arall er mwyn osgoi dadleoliad neu ailgartrefu mewn lleoliad anaddas.
- 3.6 Mae CSYM o'r farn y bydd cynnydd mewn gwaith rhyw yn ystod y prosiect yn anochel. Mae angen i Horizon gyflwyno mesurau penodol sydd wedi'u targedu i ymdrin â'r mater hwn a rhaid iddynt gydymffurfio â'r strwythurau cymorth sydd eisoes yn gweithredu yng Ngogledd Cymru.
- 2.3.13 Byddai canfod hyrwyddwr 'lles' lleol ym mhob ardal llety i groesawu gweithwyr sy'n aros yn y dref/pentref dan sylw, ac i fod yn gynrychiolydd lleol rhwng y datblygwr a'r gweithwyr, yn fesur defnyddiol. Byddai hefyd yn ddefnyddiol rhoi cyflwyniad i bob tref/cyngor cymuned am becyn sefydlu'r gweithwyr, a chael cyfarfod dilynol â phob gweithiwr sy'n lletya yno i ganfod a yw wedi cael croeso yn yr ardal neu i ganfod unrhyw anghenion neu ofynion. Byddai cysylltiadau o'r fath yn samplu tensiwn yn y gymuned cyn i bethau waethygu.
- 3.8 Dylai Horizon ddarparu capasiti ychwanegol i ateb gofynion newydd h.y. cyllid i swyddog Cydlyniant Cymunedol ychwanegol (a allai fod yn ymroddedig i faterion Cydlyniant Cymunedol, Lles a Thensiwn Cymunedol sy'n gysylltiedig

â'r prosiect), yn ogystal â chapasiti ychwanegol mewn gwasanaethau cymorth allweddol e.e. Cymorth i Ddiodefwyr, Troseddau Casineb, ac ati. Pan fydd yn gweithio, dylai'r SYG fod wedi'i leoli mewn Canolfan Gymunedol mewn modd tebyg i'r timau Cymunedau yn Gyntaf blaenorol ar Ynys Môn.

- 3.9 Fel y nodwyd o dan yr asesiad o'r effeithiau, mae angen datblygu strwythur hierarchaidd sy'n cynnwys y grwpiau, y cyfarfodydd a'r partneriaethau presennol, a sicrhau nad oes dim dyblygu. Pe bai grŵp monitro'r prosiect yn cael ei sefydlu, dylai fod ganddo gysylltiadau cryf â'r strwythurau sy'n bodoli eisoes, a dylid ei gadeirio gan gorff annibynnol.
- 3.10 Dylai Horizon ddarparu rhywbeth i gymryd lle hen glwb Chwaraeon a Chymdeithasol Wylfa i greu rhywle lle gallai trigolion lleol a gweithwyr adeiladu gymdeithasu â'i gilydd yn ystod digwyddiadau adloniant a drefnwyd ymlaen llaw. Fel arall, dylai Horizon ystyried sicrhau bod unrhyw fan cymdeithasol / adloniant o fewn y campws ar gael i drigolion lleol ar amseroedd penodol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.
- 3.11 Dylai Horizon weithio gyda CSYM a darparwyr gwasanaethau eraill i ddarparu un system ddigidol ar gyfer cyfeirio problemau / cwynion sy'n caniatáu amryw o bartneriaid i weld materion, eu diweddarau a'u tracio.
- 3.12 Dylai cyfuniad o'r mesurau lliniaru uchod helpu i liniaru'r potensial am gynyddiadau mewn troseddau casineb. Fodd bynnag, hoffai CSYM hefyd weld cyfleusterau cyfieithu ar gael yn ddi-dâl fel y gall diodefwyr posibl siarad ac esbonio unrhyw ddigwyddiadau yn eu mamiaith; sicrhau asiantaethau gwirfoddol lleol priodol i weithio gyda'r gweithlu er mwyn gallu dosbarthu gwybodaeth am droseddau casineb i gynorthwyo'r datblygwr i gynnal cymhellion Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb rheolaidd neu flynyddol (posteri, taflenni, hysbysebion ar y radio / rhaglenni gwybodaeth holi ac ateb, twrnameintiau chwaraeon, gweithgareddau cynnwys y gymuned e.e. clybiau ieuenctid, podlediadau ar-lein, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ac ati).

#### **4.0 Cyfleustodau a Seilwaith**

- 4.1 Bydd nifer o benodau thematig yr adroddiad effaith lleol wedi rhoi sylw i'r posibilrwydd y gallai'r galw sy'n codi o ddatblygiad Wylfa Newydd fod yn fwy na'r uchafswm capasiti sydd ar gael yn y rhwydwaith cyfleustodau lleol ond, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, hoffai CSYM nodi bod hwn yn faes sy'n peri pryder a bod angen ei ystyried.
- 4.2 Mae cyfleustodau megis y cyflenwad dŵr, trin dŵr budr a'r cyflenwad trydan i gyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at les corfforol ac economaidd cymunedau lleol yng Ngogledd Ynys Môn ac mae cyfyngiadau ar y systemau hyn yn gallu atal datblygiadau yn y dyfodol sy'n bwysig i'r cymunedau hynny.
- 4.3 Er y gall Horizon, ar y cyd ag e.e. Dŵr Cymru, wneud trefniadau ar gyfer y darpariaethau cyfleustodau sy'n ofynnol ganddynt, mae'n hawdd i'r rhain gymryd llawer o'r capasiti presennol neu atal uwchraddio i ddarparu capasiti newydd, a fyddai yna'n atal datblygiadau newydd.

- 4.4 Lle bo ymchwiliad pellach o'r effeithiau lleol yn digwydd drwy'r broses archwilio, gan gynnwys cwmpasu gofynion ac ymrwymadau cynllunio, hoffai CSYM bwysleisio y dylid ystyried yn benodol yr effeithiau uniongyrchol a chanlyniadol ar gapasiti'r seilwaith lleol.

## **5.0 Gofynion ac Ymrwymadau DCO**

- 5.1 Fel ymateb i'r effeithiau posibl a nodwyd a'r mesurau lliniaru ychwanegol y gofynnwyd amdanynt, hoffai CSYM weld yr addasiadau a'r ychwanegiadau canlynol i ofynion DCO.
- 5.2 Mae angen ailysgrifennu'r CoCP a'r Is-CoCPau a gyflwynwyd i roi llawer mwy o fanylion ynglŷn â rheoli traffig adeiladu ac i ba raddau y caiff cymunedau lleol wybod am y gweithgareddau adeiladu sydd ar y gweill. Oni chyflwynir codau wedi'u hadolygu yn ystod y cyfnod archwilio, byddai CSYM yn gofyn am i'r gofynion perthnasol gael eu haddasu i sicrhau y cyflwynir digon o fanylion i CSYM, a'u bod yn cytuno â hwy, cyn dechrau'r gwaith datblygu.
- 5.3 Mae'r Strategaeth Rheoli'r Gweithlu [APP-413] yn ddogfen ardystiedig (DCO Atodlen 18). Hoffai CSYM weld addasiad i'r ddogfen i gynnwys darparu rhai mesurau lliniaru penodol y cyfeiriwyd atynt uchod, yn enwedig yng nghydestun ymwybyddiaeth o Droseddu Casineb, rhywbeth nad yw'r ddogfen yn cyfeirio ato.
- 5.4 Dylai DCO fynnu bod Horizon yn paratoi cynllun gweithredu i liniaru effeithiau posibl ar gydlyniant cymunedol. Dylid cyflwyno amlinelliad o'r cynllun hwn yn ystod yr archwiliad, a dylai gynnwys y mesurau lliniaru a sefydlwyd yn y bennod hon a dylai'r gofyniad ofyn am gyflwyno dogfen fanwl i CSYM i gytuno â hi mewn ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau perthnasol eraill cyn y gwaith adeiladu.
- 5.5 Mae Horizon yn cynnig Cronfa Gwytnwch Cymunedol fel rhan o'u Hymrwymiad DCO. Mae ar CSYM angen rhagor o wybodaeth am gwmpas y gronfa hon a faint o gyllid a ddyrennir i wytnwch cymunedol. Dylai'r gronfa ddarparu digon o arian i CSYM a'u sefydliadau partner fod â digon o gapasiti i ymdrin â materion cydlyniant cymunedol.